CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cyfarfod y Cabinet: 11 Mawrth 2024

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet ar 11 Mawrth 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 25 Ebrill 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 25 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Yn bresennol

Previous meeting

Eitemau'r Prif Weinidog

Busnes y Senedd

Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol

Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Diwylliant



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Yn bresennol

- Y Gwir Anrh. Mark Drakeford AS (Cadeirydd)
- Rebecca Evans AS
- Lesley Griffiths AS
- Jane Hutt AS
- Julie James AS
- Jeremy Miles AS
- Eluned Morgan AS (o eitem 5)
- Mick Antoniw AS

- Hannah Blythyn AS
- Dawn Bowden AS
- Julie Morgan AS
- Lynne Neagle AS
- Lee Waters AS

## Ymddiheuriadau

- Vaughan Gething AS

## Swyddogion

- Des Clifford, Cyfarwyddwr, Swyddfa'r Prif Weinidog
- Matthew Hall, Pennaeth Is-adran y Cabinet
- Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol
- Rory Powell, Pennaeth Swyddfa'r Prif Weinidog
- Jane Runeckles, Cynghorydd Arbennig
- Madeleine Brindley, Cynghorydd Arbennig
- Alex Bevan, Cynghorydd Arbennig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Daniel Butler, Cynghorydd Arbennig
- Ian Butler, Cynghorydd Arbennig
- Kate Edmunds, Cynghorydd Arbennig
- Sara Faye, Cynghorydd Arbennig
- Sam Hadley, Cynghorydd Arbennig
- David Hooson, Cynghorydd Arbennig
- Clare Jenkins, Cynghorydd Arbennig
- Owen John, Cynghorydd Arbennig
- Phillipa Marsden, Cynghorydd Arbennig
- Tom Woodward, Cynghorydd Arbennig
- Christopher W Morgan, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Cabinet (cofnodion)
- Damian Roche, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
- Catrin Sully, Swyddfa’r Cabinet
- Kathryn Hallett, Swyddfa’r Prif Weinidog
- Helena Bird, Swyddfa’r Ysgrifennydd Parhaol
- Nia James, Cyfarwyddwr Dros Dro, Gwasanaethau Cyfreithiol
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
- Sioned Evans, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg
- Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu
- Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad
- Amelia John, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi (eitem 4)
- Dan Venables, Pennaeth Cydraddoldeb Strategol a Phrif Ffrydio (eitem 4)
- Jason Thomas, Cyfarwyddwr, Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (eitem 5)
- Ian Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant (eitem 5)
- Rhian Griffiths, Uned y Cytundeb Cydweithio (eitem 5)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Item 1: Minutes of the previous meeting

1.1 Cymeradwyodd y Cabinet gofnodion y 4 Mawrth / Cabinet approved the minutes of 4 March.

## Eitem 2: Eitemau'r Prif Weinidog

### Ymchwiliad COVID-19

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet, y byddai Gweinidogion yn rhoi tystiolaeth i'r Ymchwiliad COVID-19 yn ystod y dyddiau nesaf, yn dilyn presenoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr perthnasol yn ystod y pythefnos diwethaf.

2.2 Roedd Gweinidog yr Economi yn ymddangos gerbron yr Ymchwiliad y diwrnod hwnnw, a byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg yn bresennol y diwrnod canlynol. Byddai'r Prif Weinidog yn ymddangos gerbron yr Ymchwiliad ddydd Mercher.

### Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)

2.3 Dywedodd y Prif Weinidog wrth y Cabinet y byddai'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip yn cyflwyno Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn y Senedd y diwrnod canlynol.

2.4 Dywedwyd bod y Llywydd wedi cael cyngor cyfreithiol a oedd yn awgrymu bod darpariaethau'r Bil y tu allan i gymhwysedd, sef cyngor a oedd yn groes i'r cyngor a roddwyd gan gyfreithwyr y Llywodraeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 3: Busnes y Senedd

3.1 Ystyriodd y Cabinet gynnwys Grid y Cyfarfod Llawn, gan nodi bod amser pleidleisio wedi ei drefnu ar gyfer 7:15pm ddydd Mawrth a thua 6:25pm ddydd Mercher.

# Eitem 4: Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gytuno ar y Nod Hirdymor a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol ar gyfer 2024-28, ac y dylid cyhoeddi'r rhain ar 18 Mawrth.

4.2 O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei Hamcanion Cydraddoldeb, ac ers mis Ebrill 2012, roedd wedi mabwysiadu'r arfer o'u cyhoeddi bob pedair blynedd. Roedd disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi nesaf ar 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn sicrhau bod gwaith y Llywodraeth yn canolbwyntio ar ddileu anghydraddoldeb, hyrwyddo cydraddoldeb a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl.

4.3 Ym mis Hydref y flwyddyn flaenorol, roedd y Cabinet wedi cytuno i ymgynghori ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft a'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol drafft. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Chwefror.

4.4 Ers cyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb blaenorol 2020-2024, roedd sawl cynllun gweithredu ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig, megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru, wedi cael eu cyhoeddi. Roedd Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-2028 yn gysylltiedig â chamau gweithredu'r cynlluniau penodol hyn, ac nid oeddent yn eu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

diystyru na'u dyblygu. Roeddent yn eang eu naws, yn drawslywodraethol, ac yn cyfeirio at gynlluniau ac ymyriadau eraill. Byddai'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer y cynlluniau ar wahân, gan wneud y cysylltiadau ac adlewyrchu sut yr oedd bywydau a phrofiadau pobl yn gorgyffwrdd.

4.5 Datblygwyd yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol drwy weithio ar draws y llywodraeth, gyda swyddogion o bob maes portffolio yn cymryd rhan. Hefyd, roedd y gwaith o nodi camau gweithredu a nodau ategol wedi dechrau, a byddai hynny'n helpu i gyflawni'r amcanion a darparu sail i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024 – 2028.

4.6 Yn ystod y broses ymgynghori, roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cyhoeddi'r Equality and Human Rights Monitor 2023: A yw Cymru'n Decach? Roedd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu defnyddio hefyd wrth ddatblygu'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol.

4.7 Adroddwyd bod 82% o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cytuno â'r Nod Hirdymor arfaethedig, gyda 78% yn cytuno â'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol. Roedd adborth wedi awgrymu bod y syniad o beidio â gwahaniaethu fel yr oedd yn cael ei ddisgrifio yn y nod drafft yn rhy oddefol ac roedd hyn bellach wedi'i gryfhau i fod yn nod o greu Cymru sy'n seiliedig ar degwch, cynhwysiant a dileu gwahaniaethu, neu sy'n gwbl rydd rhag gwahaniaethu, trwy gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.

4.8 Yn dilyn yr adborth a'r ymgysylltu a ddigwyddodd fel rhan o'r broses ymgynghori, diwygiwyd yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol drafft, ac roedd y newidiadau hyn yn cael eu hamlinellu yn y papur.

4.9 Croesawodd y Cabinet y papur.

4.10 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Eitem 5: Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Diwylliant: 2024 - 2030

5.1 Cyflwynodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth y papur, a oedd yn gofyn i'r Cabinet gytuno ar Flaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer Diwylliant: 2024-2030.

5.2 Roedd datblygu strategaeth ddiwylliant newydd i Gymru yn ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio, ac ymgynghorwyd â'r Aelod dynodedig yn llawn, ac roedd wedi cael cyfleoedd i gyfrannu drwy gydol y broses o ddatblygu'r blaenoriaethau strategol.

5.3 Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi gosod nod clir ar gyfer creu "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

5.4 Yn ddiweddar, roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tynnu sylw at ddiwylliant fel un o'i bum maes blaenoriaeth am y saith mlynedd nesaf.

5.5 Yn sgil ymgysylltu'n gynnar â'r sector a'r gymuned, sef gwaith a wnaed fel rhan o baratoi'r strategaeth yn 2023, cynigiwyd y dylid cynnal ymgynghoriad dros gyfnod o wyth wythnos. Ar ôl hynny, byddai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu, ochr yn ochr ag ystyried y strategaeth ac o bosibl ei hadolygu.

5.6 Croesawodd y Cabinet y papur.

5.7 Cymeradwyodd y Cabinet y papur.

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet
Mawrth 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cyfarfod-y-cabinet-11-mawrth-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.